

Ymgais anfuaddugol Bardd y Gadair Ddu – am nad ydoedd yn perthyn i'r beirniad

DAMCANIAETH Iolo Morganwg ynghylch y beithynen oedd ei bod wedi'i dyfeisio yn sgil gwaharddiad brenin Lloegr ar gario papur a memwrn i mewn i Gymru, ac ar wneud papur yng Nghymru, er mwyn rhwystro'r Cymry rhag llythyru â'i gilydd ac â'r byd y tu allan. Gwnaeth hyn er mwyn ceisio dial ar y Cymry am eu cefnogaeth i Owain Glyndŵr adeg ei wrthryfel.

Gwaharddwyd y beirdd rhag clera hefyd, ond yna, cofiwyd am hen arfer Beirdd Ynys Prydain o dorri llythrennau coelbren y beirdd ar ddarnau o goed.

Yn ôl 'rhen Iolo, yr arfer oedd rhoi pedwar ar hugain o 'beithwydd' neu ffyn mewn peithynen, er, gellid cynnwys pa nifer bynnag a ddymunid – deunaw, ugain, neu hyd yn oed hyd at drigain. Rhaid oedd iddi fod yn ddigon hylaw ac ysgafn i'w chario'n rhywydd, fodd bynnag.

Dywed Iolo yr arferai rhai lifo'r pren yn las – “yn y lliw glas y lliwir gwlan ynddo” – a byddai'r llythrennau, o'u torri ar ôl i'r pren sychu, yn “wynnion ag amlyccach ar y coed gleision na phetysaint heb liw”. Os dymunid, gellid defnyddio lliw du, coch neu wyrdd.

Y pren gorau oedd deri, ond yr un hawsaf i'w drin oedd collen neu helygen neu wernen. Roedd bedwen yn bren da a'r ddraenen wen a'r ddu hefyd; canmolai'r beirdd y griafolen ac nid oedd angen pren gwell na phren afalau oherwydd gellid ei drin a'i lyfnhau'n hawdd.

CAFODD dychymyg ffrwythlon Iolo Morganwg ddylanwad cryf ar Eisteddfod Fawr Llangollen, 1858, a ffrwyth un o gystadlaethau'r eisteddfod honno yw'r beithynen a ddarlunir yma. Y mae ei hanes hi bron yr un mor ddfyr â'r eisteddfod hynod ei hun.

Yn ôl y rhestr testunau, a adargraffwyd yn Y Cymmrodor yn 1915 (t159), gofynnwyd am:

Peithynen, constructed after the manner of the ancient bards, with the Cywydd Gofiant Iolo Morganwg, by Gwallter Mechain, engraved thereon in Bardic characters.

Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth, Dyfed, SY23 3BU

AR WERTH


Nifer bychan o gopïau o ddau o lyfrau J. Gwenogvryn Evans heb eu rhwymo sef

The Poetry in the Red Book of Hergest
(Llanbedrog, 1911). Papur lliw melyn.
10 copi yn unig.

The Book of Aneirin, vol. II
(Llanbedrog, 1922).
Papur felwm Siapaneaidd. Maint mawr.
15 copi yn unig.

Pris £10 y copi – drwy'r Post £12

HEDD ap EMLYN yn profi Pastai Fawr Llangollen



Peithynen anfuaddugol Bardd y Gadair Ddu

Dau ymgeisydd oedd yn y gystadlaethau, y naill yn cynnig un fach, blaen, a'r llall yn cyflwyno campwaith gorffenedig coeth. Am fod y naill wedi cadw'n glòs at ofynion y gystadlaethau ac wedi rhoi'r hyn y disgwyliid ei weld ar beithynen, a bod y llall, er gwyched ei ymgais, wedi diystyru'r un gofynion yn llwyr, y cyntaf a orfu ac a gafodd y wobr o £3.

Canmolai'r beirniad waith yr enillydd a chafodd ei gamrol yn arbennig am iddo eu boddhau drwy gadw'n gaeth at y rheolau – dewisodd bren criafol, roedd y llythrennau yr un maint â grawn barllys ac nid oeddnt yn gorgyffwrdd. Roedd hefyd o faintoli addas i'w chario gan un o Ofyddion yr orsedd.

Yr enillydd oedd dyn o'r enw Edward Lloyd a digon yw dweud ei fod yn frawd i un o ysgrifenyddion yr Eisteddfod, T.R. Lloyd (Estyn)!

Y campwaith gorffenedig coeth ddaeth yn ail, felly, a'i gwneuthurwr hi oedd neb llai na Taliesin o Eifion, Thomas Jones, bardd cadair ddu Eisteddfod Wrecsam yn 1876.

FE'I ganed e ym mhlwy Llanystumdwy yn 1820 ac fe symudodd gyda'i deulu i Llangollen pan oedd yn grwt chwe blwydd oed. (Nid i Wrecsam, fel y nodwyd yn Y Casglwr, rhif 30). Aeth i Ysgol Grove Park, Wrecsam, ac yn ddiweddarach dilynodd grefft ei dad fel 'plumber and decorator'. Bu'n byw am weddill ei oes yn Llangollen ar wahân i gyfnod byr yng Nghristionydd ger Rhiwabon.

Byddai'n cystadlu'n rheolaidd yn eisteddfodau'r ardal – Cefn Mawr, Rhosllanerchrugog a Llangollen, er enghraifft – ac mae'n rhaid fod ei dafod yn ei foch pan gyfansoddodd yr englyn hwn i'r llyffant ar gyfer Eisteddfod Bedyddwyr Rhosllanerchrugog:

*Y llyffant o drachwant sydd drochwr, — brychwisg
A brochus fedyddiwr;
Llon gladda mewn llyn
gloewddiwr;
Ei fywyd ef yw y dŵr.*

Penderfynodd droi ei law at waith coed yn Eisteddfod Fawr Llangollen a bu'n cerfio'n ddygn ar beithynen. Fodd bynnag, cafodd drafferth i ddod o hyd i'r cywydd a oedd i'w gerfio arni a bu'n rhaid



Taliesin o Eifion

iddo ysgrifennu at ab Ithel, prif drefnydd yr Eisteddfod, prin dair wythnos cyn i'r Eisteddfod ddechrau:

Llangollen Awst 30ain /58
Barchedig Syr,

Maddeuwch fy hyfrdra yn ysgrifennu atoch. Yr wyf wedi bod yn lled ddygn yn gwneyd Peithynen ac wedi rhoddi llawer iawn o waith cerfio arni, ac wedi chwilio yn bell ac yn agos am y Cywydd sydd i fod arni ond yn hollol aflwyddianus yn mhob man. A fyddwch chi gystal a rhoddi copi i mi o hono, onide aiff fy holl lafur yn ofer. dymunwn ei gael yn fuan, gan fod yr amser wedi rhedeg mor fyr a chymmaint o waith i dori y llythyrenau eto.

Mae y Tent yn myned yn ei flaen yn gyflym iawn. mae'r olwg ar y tu fefn allan o bob maintiolrha eto ofnir yn fawr y bydd yn rhy fach.

Yr wyf wedi Paentio Baner or Ddraig-goch yn bedair llath o hyd wrth dair o led, ni chefais orchymyn i hyny. os na bydd y pwyllgor yn dewis ei chael gallaf ei gwerthu i rywun arall. nid wyf yn meddwl y gwelsoch ei hail mewn un eisteddfod flaenorol.

Ydwyf yr eiddoch yn ufudd
T. Jones (Taliesin)
Painter
Llangollen.

LWC AC anlwc gafodd Taliesin o Eifion ym Mhastai Fawr Llangollen. Mae'n debyg y derbyniwyd y faner fawr y cyfeiriodd ati yn ei lythyr ac yn ôl adroddiadau am yr Eisteddfod fe'i rhoddwyd mewn man amlgwr ger y llyfyan. Bu'n fuddugol ac yn gyd-fuddugol gyda rhai o'i englynion ond ofer fu ei ymdrechion gyda'i beithynen, er gwaetha'r panig munud olaf. Fe'i cedwir heddiw ym Mhlas Newydd, Llangollen.

Cael ei wrthod a wnaeth gan ab Ithel hefyd – gwrthodwyd urdd bardd iddo yn yr Eisteddfod a chafodd ei siomi:

Byw heb fendith ab Ithel — o raid fydd

*Ar hyd foes yn dawel
Och! wael un, wyf bellach-well-well!
Taliesin y teulu isel.*